

CYNGOR CYMUNED TRAWSFYNYDD

POLISI IAITH

Ebrill 2024

Cyflwyniad

Nôd Strategol Cyngor Cymuned Trawsfynydd - Mae gwarchod a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn nôd strategol gan y Cyngor.

'**iaith Weithredol**' - Cymraeg yw iaith weithredol Cyngor Cymuned Trawsfynydd. Gwarchodir rhag newid iaith weithredol Cyngor Cymuned Trawsfynydd o fod yn uniaith Gymraeg.

Pe deuai unigolyn nad yw'n siarad Cymraeg i gyfarfod o'r Cyngor neu pe deuai unigolyn nad yw'n siarad Cymraeg yn aelod o'r Cyngor, cyfrifoldeb yr unigolyn hwnnw fydd trefnu pa fodd y bydd yn dilyn ac yn deall gwaith y Cyngor. Os bydd hynny'n golygu unrhyw gost ariannol yr unigolyn fydd yn ysgwyddo baich y gost honno.

Cynhelir pob cyfarfod drwy gyfrwng yr Iaith Weithredol.

Cofnodir cyfarfodydd y Cyngor a'i Is-bwyllgorau yn yr Iaith Weithredol yn unig.

Mae gan aelodau o'r cyhoedd hawl i archwilio'r cofnodion drwy drefniant â'r Clerc. Mae y cofnodion yn ymddangos ar wefan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn caniatáu cyfieithu'r cofnodion i unrhyw iaith, ond ni fydd y Cyngor yn gyfrifol am ddarparu cyfieithiad. Yn y cyfryw amgylchiadau, ni fydd y Cyngor yn ysgwyddo'r baich o dalu am gyfieithu'r cofnodion ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw wallau neu gamddehongliad a allai ymddangos mewn cyfieithiadau o'r cofnodion gwreiddiol. Y cofnodion gwreiddiol Cymraeg yw'r cofnodion cywir a'r cofnodion hynny sy'n sefyll.

Os bydd y Cyngor yn cyflogi unrhyw weithiwr, bydd y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol.

Pe bai anghysondeb neu wrthdaro rhwng y Polisi Iaith a pholisiau eraill neu reolau sefydlog yna'r Polisi Iaith fydd drechaf.

Cyfiawnhad

Sefydlir a chyfiawnheir yr hawl i weithredu trwy'r Gymraeg gan y canlynol:

- Mewn deddfwriaeth ac yn benodol gan Adrannau 1 a 4 Mesur y Gymraeg 2011.
- Drwy fod Cyngor Tref Nefyn yn cynrychioli ardal y mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol trwch ei phoblogaeth ac felly'n briod iaith iddi a bod yr ardal, drwy hynny, yn ardal o sensitifrwydd ieithyddol.
- Nid yw'n debygol fod holl gynghorau Cymru yn cynnig gwasanaethau trwy'r Gymraeg a thrwy hynny byddant yn ei thrin yn llai ffafriol ac yn gweithredu'n groes i Fesur y Gymraeg 2011.
- Y ffaith y gellir dysgu priod iaith yr ardal.
- Yn hanesyddol, o gyfrifiad i gyfrifiad, bu gostyngiad cyson yn nifer yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith feunyddiol trwch y boblogaeth. Bu i ysgymuno'r Gymraeg o weinyddiaeth gyhoeddus a bywyd sifig ran yn y crebachu hwn. Mae cydnabod mai'r Gymraeg yw priod iaith yr ardaloedd gweddillol hyn a'i sefydlu'n iaith weithredol eu gweinyddiaeth gyhoeddus yn ymgyraedd at ddiogelu neilltuolrwydd diwylliannol unigryw'r ardaloedd hyn a'u cyfraniad at amrywiaeth ddiwylliannol y ddynoliaeth.

Byddwn yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaol tuag at yr uchelgais hwn. Mae'r Polisi Iaith hwn yn datgan ein hymrwymiaethau presennol wrth ddefnyddio'r Gymraeg

Pe ceir unrhyw feirniadaeth o'n polisi gan unigolion neu gan gyrff megis yr Awdurdodau Lleol neu'r Ombwdsmon, fe'u hatgoffir o'r uchod.

Delwedd Gyhoeddus

Dylid dehongli hyd a lled ein hymrwymiaid yn y polisi hwn mewn ffordd resymol - maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru neu sydd wedi eu darparu i bobl sy'n byw yng Nghymru, a hefyd maent yn gyfyngedig i weithgareddau a gwasanaethau yr ydym yn medru eu rheoli neu ddylanwadu.

Mae ein deunyddiau gohebiaeth yn yr Iaith Weithredol.

Gwefan a Gwasanaethau Digidol

Bydd ein gwefan yn yr Iaith Weithredol.

Hysbysebu a Marchnata

Bydd pob hysbyseb yn yr Iaith Weithredol ac yn ymddangos yn y wasg Gymreig.

Bydd pob deunydd arddangos a marchnata yn yr Iaith Weithredol.

Cyfathrebu

Rydym yn adnabod a gwerthfawrogi'r gallu i siarad Cymraeg fel sgil sydd yn ddefnyddiol wrth weithio yng Nghymru.

Arweiniad

Byddwn yn sicrhau bod y polisi hwn yn cael ei gefnogi ar y lefel uchaf o fewn ein sefydliad.

Ymwybyddiaeth

Bydd y polisi hwn ar gael i'r cyhoedd ei ddarllen.

Bydd pob aelod o'r Cyngor Cymuned ynghyd a'r Clerc a'r Swyddog Ariannol yn derbyn copi o'r polisi hwn ac arweiniad ar ei oblygiadau.

Adolygu

Byddwn yn asesu ac yn adolygu'r polisi hwn pob blwyddyn